Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfarfod y Bwrdd
21 Mai 2013

Teitl y Papur	**Proses ac amserlen y Cynllun Corfforaethol**
Cyfeirnod y Papur:	**Papur NRW B (O) 6/13 – Mai 2013**
Noddwyd y Papur gan: **Awdur y Papur:**	**Ceri Davies** **John Hogg**

Pwrpas y Papur:	Amlinellu'r broses a'r amserlen ar gyfer paratoi Cynllun Corfforaethol yn ystod 2013/14 i gwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill 2014 tan ddiwedd tymor y Cynulliad presennol.
Argymhelliad:	Gofynnir i'r Bwrdd gadarnhau'r broses a'r amserlen ar gyfer paratoi Cynllun Corfforaethol.

Effaith:	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Bydd gennym gynllun clir o'r canlyniadau yr ydym am eu cyflawni ar gyfer yr amgylchedd. **Effaith ar yr Economi**: Bydd gennym gynllun clir o'r modd y gallwn gefnogi'r economi a defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol. **Effaith ar Gymunedau**: Bydd gennym gynllun clir o'n gwaith mewn cymunedau a sut y byddwn yn cydweithio ag eraill. **Effaith ar Wybodaeth**: Byddwn yn datblygu ein sail o ran tystiolaeth a gwybodaeth er mwyn llywio ein gwaith.

Y Mater dan Sylw

1. Mae ein Cynllun Corfforaethol cyntaf yn gyfle pwysig i ni ddisgrifio sut y byddwn yn cydweithio ag eraill i gyflawni ein pwrpas. Byddwn yn amlinellu cyd-destun ein gwaith, y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru a'r gyllideb y byddwn yn gweithio o'i mewn. Caiff y cynllun ei ddatblygu gyda'n rhanddeiliaid a'n staff a bydd o ddiddordeb i'n rhanddeiliaid, ein staff a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae cael ffordd glir o gyflawni'r cynllun a gosod cerrig milltir a phwyntiau penderfynu yn allweddol. Er mai ein Tîm o Gyfarwyddwyr Gweithredol [EDT] sy'n gyfrifol am gyflawni'r Cynllun Corfforaethol, y Bwrdd sy'n benodol gyfrifol am ddarparu cyfeiriad strategol, am ymgysylltu â rhanddeiliaid ac am fonitro'n perfformiad er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'n nodau a'n hamcanion.

Cefndir

2. Ein rôl sylfaenol yw cyflawni ein cyfrifoldebau statudol a chyflawni amcanion a bennwyd gan Weinidogion Cymru. Maent yn gosod amcanion ehangach inni drwy ddull canlyniadau hirdymor a Llythyr Cylch Gwaith blynyddol i bennu'r meysydd y mae'n rhaid i ni ganolbwyntio'n benodol arnynt. Mae ein Llythyr Cylch Gwaith cyntaf oddi wrth y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd yn ei gwneud yn ofynnol inni baratoi Cynllun Corfforaethol ar gyfer y cyfnod o Ebrill 2014 hyd ddiwedd tymor y Cynulliad presennol.

3. Disgwylir inni alinio'n gwaith er mwyn helpu i gyflawni canlyniadau hirdymor Llywodraeth Cymru a datblygu pwrpas cyffredin ar y cyd â holl bartneriaid cyflawni Llywodraeth Cymru sy'n rhannu'r canlyniadau hyn. Bydd angen i'n Cynllun Corfforaethol adlewyrchu hyn, ac mae hyn yn nodi arwyddocâd cynnwys partneriaid a rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r cynllun. Gweler y canlyniadau hirdymor a rennir yn atodiad 1.

4. Mae ein Cynllun Busnes ar gyfer 2013/14, sydd bellach wedi'i gymeradwyo gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd, yn adlewyrchu'r gofyniad i ni ddatblygu Cynllun Corfforaethol. Mae'r gwaith cychwynnol ar y gweill mewn sesiwn o Grwpiau'r Bwrdd ar 16 Ebill 2013 i amlinellu eu rôl yn y gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid strategol. Mae allbwn y cyfarfod hwn yn atodiad 2. Yn ogystal, roedd cyfarfod cyntaf llawn y Grŵp Arweinyddiaeth ar 25 Ebrill 2013 yn cynnwys trafodaeth ar eu rôl yn y gwaith o hyrwyddo'r broses gyda'n staff a rhanddeiliaid, a sut y bydd yn ofynnol gwneud hyn ledled y sefydliad.

5. Mae'r Cynllun Busnes yn cydnabod pwysigrwydd canlyniadau Llywodraeth Cymru ac yn gosod nifer o flaenoriaethau newydd a fydd yn sylfaen ar gyfer gwaith ymgysylltu ac ymgynghori'r Cynllun Corfforaethol. Datblygwyd y blaenoriaethau hyn gan ddefnyddio dull cyd-gynhyrchu rhwng Llywodraeth Cymru a'r cyrff a'n rhagflaenodd. Fe'u gwelir yn atodiad 3. Mae yna 18 o flaenoriaethau gweithredol sydd angen canolbwyntio arnynt, sy'n cael eu hategu gan Ddatblygiad Gweithredol gyda'r nod o sicrhau bod gennym y diwylliant cywir, a dulliau gweithio, systemau a phrosesau ar waith i

gefnogi'r gwaith o gyflawni am y pump i ddeng mlynedd nesaf. Strategaeth fusnes sy'n esblygu yw'r strategaeth hon.

Y Cynigion a'r Camau Nesaf

6. Defnyddir dull anhraddodiadol o baratoi'r Cynllun Corfforaethol, ar ffurf prosiect traws sefydliadol, lle bydd Cynllunwyr Corfforaethol yn cydlynu a hwyluso, gyda dulliau cyd-gynhyrchu'n ategu'r broses yn ei chyfanrwydd. Mae'r digwyddiadau ymgysylltu a gynlluniwyd yn enghraifft o hyn, gyda grwpiau cymysg o randdeiliaid mewnol ac allanol yn ymgynnull ynghyd â chynrychiolaeth o faes polisi Llywodraeth Cymru yn strwythur y prosiect. Bydd y dull cynhwysol hwn yn darparu Cynllun Corfforaethol sy'n berthnasol, cadarn, cynhwysfawr a deniadol i bawb. Bydd hefyd yn darparu sicrwydd ynglŷn â chyfrifoldebau statudol amcanion y Gweinidog, ac yn sicrhau sylfaen gadarn o dystiolaeth. Mae Dogfen Cychwyn Prosiect ar y gweill i sefydlu llinellau adrodd a goruchwylio'r broses.

7. Mae'r dull rheoli prosiect yn ein galluogi i reoli amserlen dynn gan arwain at lansio'r Cynllun Corfforaethol ym mis Ebrill 2014. Mae'r amserlen yn nodi'r tasgau allweddol sy'n ofynnol er mwyn darparu Cynllun Corfforaethol ac yn nodi'r pwyntiau penderfynu allweddol. Gweler yr amserlen yn atodiad 4.

8. Mae'r broses a'r amserlen yn cydnabod y graddau o ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid sy'n ofynnol gyda chyfnod sylweddol o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer hyn yn ail chwarter 2013/14. Mae gwaith mapio rhanddeiliaid eisoes ar waith. Trwy fuddsoddi digon o amser i hyn a thrin y gwaith ymgysylltu mewn modd cydweithredol, gellir darparu drafft cyntaf cadarn o'r cynllun gan ddangos y pwrpas cyffredin sy'n ofynnol. Gellir defnyddio cyfnod byrrach ar gyfer ymgynghori cyhoeddus wedyn, yn sgil yr ymdrechion cyntaf hyn.

9. Bydd angen i'r Cynllun Corfforaethol bennu ein huchelgais a'n dyheadau ar gyfer y tymor hwy, gan gydnabod ein sefyllfa a'r pwysau ar ein busnes yn 2014. Bydd yn nodi ein Strategaeth Fusnes gadarn, ddiwygiedig, gan ddangos sut y byddwn yn datblygu'n sefydliad integredig sy'n cyflawni ar lefel uchel.

10. Bydd sicrhau bod yr alinio hyn yn adlewyrchu cyflawni canlyniadau hirdymor yn elfen allweddol o'r cynllun. Bydd angen datblygu Fframwaith Perfformiad ochr yn ochr â'r cynllun fel mecanwaith i ddangos sut rydym yn cyfrannu at y canlyniadau hyn.

Risgiau

11. Bydd amserlen wedi'i chofnodi gyda cherrig milltir yn peri i'r Bwrdd a phrosesau craffu eraill y llywodraeth ganolbwyntio ar gyfnodau allweddol wrth gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Bydd paratoi a rheoli cyfnod ymgysylltu'r broses yn hanfodol i lwyddiant i'r cyfnodau nes ymlaen yn yr amserlen. Gallai unrhyw oedi neu ddiffyg prydlondeb ar yr adeg hon ddylanwadu ar yr

ymatebion i ymgynghoriadau a sylw gan y cyhoedd, diwydiant a gwleidyddion, gan oedi'r gwaith o baratoi dogfen derfynol ac oedi sêl bendith y Gweinidog y tu hwnt i fis Ebrill 2014. Byddai hyn yn ein hatal rhag sefydlu synnwyr cyfeiriad clir.

Goblygiadau Ariannol

12. Staff ac aelodau cyfredol y Bwrdd fydd yn cyflawni'r Cynllun hwyluso a bydd tîm prosiect traws sefydliadol a Chynllunio Corfforaethol o bob Cyfarwyddiaeth yn ei hwyluso. Bydd rhai costau'n gysylltiedig â chynnal digwyddiadau ymgysylltu, ac â chyhoeddi copïau caled o'r ddogfen derfynol yn ôl y gofyn.

Materion Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth

13. Dyletswydd y Bwrdd yw sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n Dogfen Fframwaith a'n Llythyr Cylch Gwaith drwy gael sêl bendith y Gweinidog i'n Cynllun Corfforaethol.

Cyfathrebu

14. Bydd paratoi a lansio Cynllun Corfforaethol yn golygu cryn ymdrech i ymgysylltu â rhanddeiliaid a rhoi cyflwyniadau i'r cyhoedd.

15. Mae'r amserlen yn dangos pryd bydd yn ofynnol i'r Bwrdd wneud penderfyniadau. Pan na fydd angen penderfyniadau mewn cyfarfodydd, bydd adroddiad ar gynnydd yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau goruchwyliaeth briodol.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

16. Bydd yn ofynnol cynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb y Cynllun Corfforaethol newydd cyn ei gyhoeddi'n ffurfiol.

Atodiad 1: Canlyniadau Hirdymor a Rennir
Atodiad 2: Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Strategol Grŵp y Bwrdd
Atodiad 3: Blaenoriaethau ac Egwyddorion Datblygu Sefydliadol Newydd
Atodiad 4: Amserlen